COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o RAGFYR 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Ian Evans,Heddwyn Jones,Margaret Rees,Richard Thomas,Geoff Hewitt, Meic Bowen,Linda Williams,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Ellis Jenkins,Tyssul Evans a Geraint Rosser.

Materion Personol

1585 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Linda Williams ar enedigaeth Ŵyr newydd a hefyd croesawyd y Cynghorydd Richard Thomas yn ôl ar ôl cyfnod o dostrwydd. Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr iechyd y Cynghorydd Ellis Jenkins a dymunwyd yn dda iddo.

1586 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 07/11/2016 fel rhai cywir.

1587 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1568 - Toiledau'r Meinciau - Arhoswn am y dogfennau angenrheidiol cyn cadarnhau'r penodiad.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1588 Eglwys y Plwyf, Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

1589 Papur y Cwm - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1590 Carway Short Mat Bowls– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1591 Carway Short Mat Bowls - Cyfraniad tuag at brynu peiriant arbennig - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £890 o Gronfa Ffoslas.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1592 Llanelli Centre for the Deaf – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1593 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1594 Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru– Newyddion Diogelwch– Nodwyd y llythyr.

1595 Cyngor Sir Gar - Ymgynghoriad ynglŷn â Blychau Ffon BT- Nodwyd gyda diolch bod y Cyngor Sir yn gwrthwynebu cau'r blychau yn ein cymuned.

1596 Cyngor Sir Gar – Adolygiad Cyfansoddiad Cyngor Cymuned Llangyndeyrn – Nodwyd gyda diolch bod y Cyngor Sir yn cadarnhau dymuniadau'r Cyngor Cymuned i newid cyfansoddiad y Cyngor fel y ganlyn:-

a) Ward Carwe – 3 Sedd
b) Ward Pontiets – 6 Sedd
c) Ward Llangyndeyrn – 3 Sedd

Y cyfryw i'w gymryd lle yn yr etholiad ar 04/05/2017.

Ceisiadau Cynllunio

1597 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/34692- Clwb Cymdeithasol Carwe - 8 o Dai - Dim Gwrthwynebiad ond nodwyd nad yw'r datblygiad hyn yn y Cynllun Datblygu dros Garwe.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1598 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Tachwedd 2016.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1599 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Tachwedd)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Tachwedd)
ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Tachwedd)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Tachwedd)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Tachwedd)
e) Inc i'r Llungopïwr - £68.96
f) Society of Local Council Clerks – Aelodaeth - £93.00
ff) Association of Local Council Clerks – Aelodaeth - £10.00

Cofnodion Is-bwyllgor Cyllid - 05/12/16.

1600 Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd derbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor uchod ein bod yn codi Presept y Cyngor 3% am y flwyddyn 2017-2018.

Materion Cynghorwyr

1601 Ian a) Cysylltu gydag Excel Electrics ynglyn a goleuadau Coed Nadolig Carwe.
b) Ysgrifennu at Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gar yn datgan ein gwrthwynebiad o'r Gymuned yn cael eu symud i etholaeth Llanelli ac ein bod yn cefnogi cadw Cenarth a Llangeler yng Nghaerfyrddin a symud Talacharn i etholaeth Penfro.

1602 Margaret Gofyn i Gyngor Cymuned Pontyberem a oedd unrhyw ddogfennau sy'n dangos perchnogaeth Mynydd Llangyndeyrn.

1603 Richard a) Golau allan ger y Lodge, Pontantwn
b) Gofyn i Adam Price AC i edrych ar system Band Llydan yn y Gymuned yn gyffredinol.

1603 Alan Ysgrifennu at Dr Keri Edmunds, Meddygfa Pontiets yn gofyn am eglurhad ynglŷn sefyllfa gweithredu apwyntiad yn y Feddygfa.

Cyfarfod nesaf:- 9fed Ionawr 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……